# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’w hateb ar 23 Mehefin 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir Rhif Gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau )**

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 9 Mehefin 1999

I ofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg o dan 16 oed;

**1. Jane Davidson (Pontypridd);** Pryd y penderfynir ar y cais gan Ysgol Rhydyfelin odan y Fenter Cyllid Preifat. (OAQ173JS)

**2. Jenney Randerson (Canol Caerdydd );** Yn wyneb y pryder a fynegwyd ganundebau’r athrawon ynghylch y Papur Gwyrdd "Y Gorau ar gyferAddysgu a Dysgu", sut y mae’n bwriadu cynnig set realistig o gynigion at ydyfodol, mewn perthynas â strwythur a thâl y proffesiwn addysgu. (OAQ214JS)

**3. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa drefniadau ariannol a wneir ar gyferdarparu adeiladau ysgol newydd a chymeradwyedig yng Nghymru. (OAQ200VB)

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd );** Pa strategaeth a arddelir er mwynmynd i’r afael ag anfantais addysgol yng Nghymru sy’n deillio o ffactoraucymdeithasol-economaidd. (OAQ199VB)

**5. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** I wneud datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau syddganddi i ymweld yn fuan ag Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun, yn wyneb y problemau sydd gan yrysgol honno o ran diffyg lle. (OAQ217VB)

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa ddarpariaethau a chymorth sydd argael i helpu’r bobl hynny sydd â nam ar eu golwg neu sy’n ddall i gyflawniswyddogaethau fel llywodraethwyr ysgol (OAQ176JS)

**7. Nick Bourne (Canol a Gorllewin Cymru);** A fydd hi'n gwneud datganiad ynghylchdarparu addysg feithrin yn Sir Benfro. (OAQ210VB)

**8. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa ganran o fechgyn a merched yng Nghymru sydd wedillwyddo i gael graddau A i C yn yr arholiadau TGAU dros y tair blynedd diwethaf. (OAQ174JS)

**9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I amlinellu cynlluniau i ddatblygu'rdefnydd o TGC mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. (OAQ216JS)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A fydd hi'n gwneud trefniadau i ddosbarthucanllawiau wedi'u diweddaru ar ddarparu addysg anghenion arbennig i holl AwdurdodauAddysg Lleol Cymru, gan gyfeirio'n benodol at awtistiaeth a'r rhaglen Gymwysedig iDdadansoddi Ymddygiad. (OAQ207VB)

**11. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** I wneud datganiad yngln â hyfywedd asefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. (OAQ175JS)

**12. Jenney Randerson (Canol Caerdydd);** Yng ngoleuni'r ffaith fod mwy oddisgyblion yng Nghymru nag yn Lloegr yn methu â llwyddo mewn unrhyw arholiad TGAU, pagynigion sydd ganddi i fynd i'r afael â'r broblem hon. (OAQ215)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Yng ngoleuni canllawiau drafft y SwyddfaGymreig sy'n cyfyngu niferoedd dosbarthiadau derbyn i 30 disgybl neu lai o fis Medi1999 ymlaen, pa gyngor fyddai hi'n ei roi i ysgolion sydd â nifer safonol na ellirei rannu â 30, ac sydd heb dderbyn cyllid ar gyfer athro ychwanegol, ac y bydd yn rhaididdynt roi disgyblion dosbarth derbyn mewn dosbarthiadau oedran cymysg. (OAQ205AG)

**14. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gyfran o'r £8 miliwn a gynigiwyd argyfer addysg gerddorol mewn ysgolion sydd wedi ei ddosbarthu i ysgolion Cymru, bethyw'r patrwm dosbarthu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a faint o arian sydd ar ôli'w ddyrannu. (OAQ177JS)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau sydd ganddi ar y gweill i atal ygostyngiad yn nifer yr athrawon a gyflogir gan ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru.(OAQ206AG)

**16. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A oes unrhyw gynlluniau i ddatblygucynlluniau dysgu personol ar gyfer disgyblion hyd at 16 oed. (OAQ218VB)

**17**. **Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill argyfer addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. (OAQ219VB)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 15 Mehefin 1999

**18. Michael German (De Ddwyrain Cymru);** Sawl dosbarth Cyfnod Allweddol 2 yngNghymru sydd â mwy na 30 o ddisgyblion. (OAQ240VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig;

1. **Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);** O ystyried y problemau ym maes ffermio a etifeddwyd gan y Cynulliad, a oes unrhyw gynlluniau ar lefel Cymru gyfan i yrru'r diwydiant yn ei blaen. (OAQ178VB)

**2. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y mae hi'n bwriadugweithredu mewn perthynas â bwydydd a addaswyd yn enetig a moratorium posibl ar fwydyddo'r fath (OAQ187JS)

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pryd y bydd ffurflenni IACS yn cael eudosbarthu i ffermwyr Cymru yn y flwyddyn 2000 (OAQ183JS)

4. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd hi'n cefnogi ymestyn y Cynllun Cymorth Prosesu Lloi hyd nes y bydd y farchnad allforio cig eidion wedi'i hadfer i raddau helaeth. (AQ208JS)

**5. David Davies (Mynwy);** Pa ddatblygiadau a wnaed ers 25 Mai 1999 o ran codi'rgwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. (OAQ189JS)

6. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill gennych i drafod allforio yn Cymru gyda Fferi'r Ffermwyr Cyf. (OAQ209VB)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol igyflwyno polisi labelu yng Nghymru ar gyfer bwydydd a addaswyd yn enetig (OAQ203VB)

**8. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Faint o arian Cronfa Cyfarwyddo a GwarantuAmaethyddol Ewrop sydd heb ei ddyrannu yng Nghymru yn ystod y cylch gwario cyfredol, erbynpryd y mae'r arian i'w wario, faint o arian cyhoeddus cyfatebol sy'nangenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd y grant llawn yn cael ei ddefnyddio, a beth yw'rdyddiad cau ar gyfer yr arian hwn. (OAQ184JS)

**9. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru );** Pa sylwadau a dderbyniwydgennych ynghylch cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a sut yr yr ydych yn bwriadugweithredu

o fewn y Cynulliad yn sgîl hynny. (OAQ181JS)

**10. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A all hi roi sicrwydd na fydd lansio'rBartneriaeth Bwydydd Amaethyddol yn andwyol i'r Arwerthiant Da Byw. (OAQ212JS)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae hi'n bwriadu gweithredu iddiogelu incwm ffermydd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. (OAQ202VB)

**12. Karen Sinclair (De Clwyd);** O ystyried y trefniadau gwahanol sy'n debygol ogael eu cyflwyno ar gyfer Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel, a fydd, ar ôl i'rPolisi Amaeth Cyffredin cael ei ddiwygio, yn lwfansau yn ôl arwynebedd yn hytrach nag ynlwfansau fesul pen, pa beirianwaith a ellir ei ddefnyddio i ddiogelu'r"bloc" presennol ar gyfer Cymru. (OAQ179JS)

**13. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa gynlluniau sydd ganddi i sicrhau llai o broblemauyn ystod arwerthiannau defaid yr hydref hwn o ystyried y problemau a gafwyd y llynedd .(OAQ180JS)

**14. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa bwerau sydd gan yCynulliad o ran cynnal profion ar fwydydd a addaswyd yn enetig, ac o ran eu cynhyrchua'u labelu. (OAQ185)

**15. Mick Bates (Maldwyn);** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad i sicrhau bod pob corff yny sector cyhoeddus yn defnyddio cynnyrch Cymru yn hytrach na bwyd a fewnforiwyd.(OAQ204VB)

**16. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A fydd hi'n rhoi mesurau ar waith ihybu cwmnïau cydweithredol yn y byd ffermio yng Nghymru (OAQ197VB)

**17. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth y bydd hi'n ei harddeler mwyn datblygu'r diwydiant prosesu bwyd yng Nghymru. (OAQ198VB)

**18. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pryd y bydd y cynllun CymorthOrganig ar gael i ffermwyr Cymru. (OAQ182JS)

**19. Elin Jones (Ceredigion);** Pam nad yw'r canllawiau asesu ar gyfer y cynllunTir Gofal yn gyhoeddus. (OAQ210JS)

**20. David Davies (Mynwy);** Beth sy'n cael ei wneud i gyflymu'r broses odalu cymhorthdal i ffermwyr. (OAQ190JS)

**21. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa sicrwydd y gall hi ei roi i'rgymuned amaethyddol ac i'r defnyddwyr bod cig sy'n cael ei fewnforio o wledydd ytu allan i'r DU yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n cael eu gorfodi arffermwyr Cymru, o safbwynt lles yr anifeiliaid,

wrth allforio da byw. (OAQ191JS)

**22. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd hi'n rhoi mwy o arian i'rcynllun Tir Gofal. (OAQ213JS)

**23**. **Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A all hi gyflwyno adroddiad amunrhyw drafodaethau y mae hi wedi'u cynnal gyda Phartneriaeth Wledig Cymru arddatblygu B'BACH'au yn yr economi wledig. (OAQ220VB)

**24**. **Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A all hi gyflwyno'u sylwadauar gynlluniau'r llywodraeth i wella mynediad i gefn gwlad, ac i ofyn sut y mae'nbwriadu gyrru'r cynlluniau hyn yn eu blaen gan ymgynghori â phartneriaid eraill syddâ diddordeb. (OAQ221AG)

**25. Lynne Neagle (Tor-faen);** A all hi roi'r ffigurau ar gyfer y lefelau obroblemau iechyd meddwl a'r cyfraddau hunanladdiad yng nghefn gwlad Cymru. (OAQ222VB)

**26. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i drafod ydiwygiadau diweddar i'r Polisi Amaeth Cyffredin gydag eraill . (OAQ223AG)